COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 10 Hydref 2000
**Amser:** 8.30am
**Lle:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Presennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc i'r Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc i'r Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Personol y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8)

**1. Ymddiheuriadau**

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau

1.2 Yr oedd Jocelyn Davies yn bresennol fel Rheolwr Busnes newydd grŵp Plaid Cymru. Er hynny, nes y byddai'n cael ei hethol yn ffurfiol mewn cyfarfod llawn, byddai'n bresennol yn lle Ieuan Wyn Jones o dan Reol Sefydlog 13.3.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

2.1 Cynigiwyd nifer o fân newidiadau i'r cofnodion ar gyfer 12 a 13 Medi (BC254-00 a BC256-00). Cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dod yn fersiynau terfynol ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi.

**3. Materion yn codi**

**BC254-00**

3.1 **Paragraff 3.1** – Yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor Busnes gychwyn am 8.30am a'r Pwyllgor Deddfau am 9.00am am gyfnod prawf pedair wythnos.

3.2 **Paragraff 6.2** – Dywedodd y Trefnydd y byddai'n adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

3.3 **Paragraffau 9.1 a 9.2** – Nodwyd bod y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog i gymryd i ystyriaeth y trefniadau arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Tŷ newydd

wedi cael eu cyflwyno a'u bod yn cael eu hystyried yn y cyfarfod llawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

**BC256-00**

3.4 **Paragraff 5.2** – Byddai'r Trefnydd yn darparu adroddiad am farn y Prif Ysgrifennydd am newid diwyg cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd yn y cyfarfod nesaf.

3.5 **Paragraff 11.2** – Byddai'r Dirprwy Lywydd yn anfon y llythyr yr wythnos hon. Byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Busnes ar ôl y cyfarfod arfaethedig â Marie Knox a Barry Jones. **Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd**

**4. Materion a gyfeiriwyd o gyfarfodydd llawn**

4.1 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion o gyfarfodydd llawn.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ynglŷn â gweithdrefnau**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC262-00 ynglŷn â nodi yn y Rheolau Sefydlog yr amser yr oedd cyfarfodydd llawn i orffen ar fore dydd Iau. Esboniodd Sherry Rees y byddai'r Datganiad Amserlen trimisol yn dangos bod cyfarfodydd llawn i orffen am 12.35pm ar ddydd Iau. Yn ogystal, byddai'r datganiad busnes drafft yn amlinellu amserau ar gyfer pob eitem o fusnes ar gyfer cyfarfod llawn. Gan y byddai angen i'r Cynulliad gytuno ar y ddau yn y cyfarfod llawn, dyna leddfu pryderon y Llywydd ynghylch rhoi rhan i'r holl Aelodau yn y broses. Nodwyd y byddai'n rhaid i'r cyfarfod llawn ar fore dydd Iau orffen erbyn 1.30pm fan hwyraf, ond y byddai angen estyn yr amser gorffen arferol, sef 12.35pm, drwy gynnig gweithdrefnol fel y nodwyd yn y Datganiad Busnes.

5.2 Croesawodd y Trefnydd yr hyblygrwydd a gynigiwyd yn y papur a dywedodd mai rhoi amcan yn unig fyddai'r amseriadau ar y datganiad busnes drafft, o gofio y byddai cwestiynau brys a datganiadau Cabinet brys yn eu newid. Ychwanegodd y byddai ailwampio cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd i'w gwneud yn fwy cyfoes yn cael gwared ar yr angen am gynifer o gwestiynau brys neu ddatganiadau brys. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn ystyried y papur o fewn eu grwpiau ac yn ymateb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref. Pe bai ganddynt gwestiynau yn y cyfamser, dylent eu hanfon at Ysgrifenyddiaeth y Siambr erbyn dydd Gwener 20 Hydref fan bellaf.
**Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

5.3 Cafodd papur BC258-00 ei ystyried gan y Pwyllgor ynghyd â phapurau a oedd wedi'u hystyried yn flaenorol (BC157-00 a BC185-00) ynglŷn â dewisiadau o ran wythnosau etholaeth y Nadolig, o gofio cynnig y Trefnydd, sef y byddai egwyl tair wythnos yn fwy derbyniol. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y Llywydd o'r farn y dylid cael egwyl pedair wythnos fel y cytunwyd yn flaenorol. Dywedodd William Graham a Jocelyn Davies na ddylid ailystyried y mater gan fod penderfyniad wedi'i wneud eisoes. Dywedodd y Trefnydd ei fod am i'r holl grwpiau plaid ailystyried yr opsiynau a

ystyriwyd cyn hynny gan fod y cytundeb a wnaed rhwng y pleidiau yn y Pwyllgor Busnes am yr egwyl tair wythnos ar gyfer Tymor Cynadleddau'r Pleidiau wedi denu sylwadau negyddol yn y cyfryngau ar ôl cyfweliad ag Ieuan Wyn Jones a oedd wedi dylanwadu ar y darlun yr oedd y cyhoedd yn ei gael o'r Cynulliad. Dywedodd Jocelyn Davies fod y Grŵp Llafur wedi cadarnhau'r darlun yr oedd y cyhoedd yn ei gael gan fod cyn lleied o'i aelodau wedi mynychu cynhadledd eu plaid eu hunain.

5.4 Nododd y Dirprwy Lywydd y byddai staff wedi gwneud trefniadau ar gyfer gwyliau dros y Nadolig ar sail yr hyn y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Busnes yn flaenorol. Atgoffodd y Pwyllgor Busnes na ddylid beirniadu'n gyhoeddus gytundebau a wneir yn ei gyfarfodydd; yn hytrach, dylid dod ag unrhyw bryderon yn ôl i'r Pwyllgor i'w trafod ymhellach. Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes ailystyried y papurau gyda'u grwpiau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

5.5 Cyflwynodd y Trefnydd bapur BC272-00 ynglŷn ag opsiynau ar gyfer wythnosau etholaeth yn 2001. Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes ystyried y cynigion gyda'u grwpiau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn cadarnhau gwybodaeth fanwl am nifer yr wythnosau y byddai Senedd yr Alban a Thŷ'r Cyffredin yn eistedd bob blwyddyn fel y byddai modd gwneud cymhariaeth. Byddai'r rhain yn cael eu hanfon drwy'r e-bost at y Rheolwyr Busnes cyn pen dau ddiwrnod.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gadarnhau ystadegau am wythnosau eistedd; Rheolwyr Busnes i ystyried papur BC272-00 gyda'u grwpiau**

5.6 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC263-00 a oedd yn darparu manylion am nifer y cwestiynau a gafwyd a nifer y geiriau a ddefnyddiwyd yn ystod y sesiwn cwestiynau llafar ar 12 a 14 Medi – yr wythnos gyntaf ar ôl gosod y stopglociau. Yr oedd William Graham yn pryderu nad oedd modd cael cwestiynau atodol gan y gwrthbleidiau oherwydd y cyfyngiad tair munud ar bob cwestiwn. Tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw at ymgais y Llywydd i sicrhau bod cydbwysedd rhwng y pleidiau drwy'r cyfan o'r sesiwn holi.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Nododd y Pwyllgor bapur BC259-00 – cais gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am gael cynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Iau 12 Hydref. Daethpwyd i gytundeb drwy ohebu â'r Rheolwyr Busnes yn ystod tymor y cynadleddau er mwyn hwyluso'r gwaith o drefnu'r cyfarfod.

6.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC261-00 – cais gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am gael cynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Iau 2 Tachwedd. Nodwyd bod y Pwyllgor Amaethyddiaeth wedi cytuno'n unfrydol i'r cynnig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais hwn.

6.3 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC264-00 – cais gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar am gael cynnal dau gyfarfod ychwanegol ddydd Iau 2 Tachwedd a dydd Iau 14 Tachwedd. Cadarnhaodd William

Graham fod y penderfyniad yn unfrydol.  Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais.

**7.  Busnes at y dyfodol**

7.1  Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Amserlen drafft (BC242-00 diwygiedig). Darparodd y Rheolwyr Busnes fanylion amserau cyfarfod eu grwpiau plaid fel bod modd i'r Trefnydd gyflwyno'r papur yn ddiweddarach yn y prynhawn.

**Busnes yr wythnos hon**

7.2  Dywedodd y Trefnydd y byddai tri datganiad Cabinet yn cael eu gwneud yn y cyfarfod llawn yn y prynhawn am:

- ymddiswyddiad Tom Middlehurst o'r Cabinet
- Memorandwm Dealltwriaeth yn codi o'r blocadau tanwydd diweddar
- y Cytundeb Partneriaeth rhwng y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol

Yr oedd Jocelyn Davies yn pryderu am y ffaith mai datganiad oedd y Cytundeb Partneriaeth.  Byddai wedi bod yn well gan ei phlaid hithau gael dadl am y mater.  Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi gohirio'r ddadl am y Gorchymyn Hadau, a oedd wedi'i hamserlennu'n rhan o fusnes y prynhawn, er mwyn cael cyngor cyfreithiol ac ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a Senedd yr Alban.

7.3  Yn ogystal, cafwyd gwybod gan y Trefnydd y byddai tri datganiad Cabinet yn cael eu gwneud yn y cyfarfod llawn fore dydd Iau, sef:

- Canolfan y Mileniwm, Cymru
- Ceiswyr lloches
- Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn ogystal, byddai cynnig gweithdrefnol yn cael ei wneud i gwblhau'r ddadl am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

7.4  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC265-00).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 16, 23 a 30 Hydref 2000**

7.5  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig am drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 16, 23 a 30 Hydref oedd y dylai fynd rhagddo yn ôl yr amlinelliad yn y datganiad busnes drafft.

7.6  Nodwyd y byddai dadl plaid leiafrifol y Democratiaid Rhyddfrydol yn aros ar y datganiad busnes ar gyfer 17 Hydref hyd nes y ceir canlyniad y cynigion i ffurfio clymblaid.  Yn ogystal, gofynnodd William Graham am fanylion pellach ynghylch y ddadl ar 31 Hydref am ffioedd a lwfansau'r Aelodau.  **Gweithredu: Rheolwyr Swyddfa'r Llywydd i drefnu i'r papurau gael eu darparu.**

7.7  Yr oedd Jenny Randerson yn pryderu nad oedd y Swyddfa Gyflwyno bob amser yn gallu cyhoeddi papurau erbyn 9.30am a bod hynny'n effeithio ar allu'r gwrthbleidiau i'w hystyried cyn paratoi gwelliannau.  Cytunodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn anfon neges e-bost pe na bai'n

debygol o gyrraedd ei tharged cyhoeddi.  **Gweithredu:  Y Swyddfa Gyflwyno**

7.8  Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar gynllun Diwydiant a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes i’r cynllun ond byddent am roi ystyriaeth bellach i’r prosesau yn nes ymlaen.  Tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw at yr angen tebygol am sianelu’r materion drwy’r Pwyllgor Tŷ newydd.  **Gweithredu:  Y Trefnydd i hysbysu Gareth Wardell**

**<u>8.  Is-ddeddwriaeth</u>**

**<u>Rheoliadau Addysg (Gwahardd o’r Ysgol)(CyfnodauRhagnodedig)(Gwelliant)(Cymru) 2000</u>**

8.1  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC266-00 a oedd yn darparu cyngor gan Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg Cyn 16 Oed a Phlant, am ymdrin â’r Gorchymyn uchod.  Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i’r Pwyllgor. Byddai’n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn gyflym.**

**<u>Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion (Cylch Gwaith)(Cymru) 2000</u>**

8.2  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC267-00 a oedd yn darparu cyngor gan Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg Cyn 16 Oed a Phlant, am ymdrin â’r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i’r Pwyllgor. Byddai’n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  Cytunodd Marion Stapleton i drefnu bod y canllawiau ar gyfer llywodraethwyr ysgolion ar gael i’r Rheolwyr Busnes. **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn safonol.**

**<u>Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000</u>**

8.3  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC268-00 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol, am ymdrin â’r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i’r Pwyllgor. Byddai’n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn safonol.**

**<u>Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3)(Cymru) 2000</u>**

8.4  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC269-00 a oedd yn darparu cyngor

gan Jane Hutt, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, am ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor y dylid cynnal un ddadl a fyddai'n cwmpasu'r gorchymyn hwn a'r gorchymyn yn y paragraff blaenorol. **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn safonol.**

**<u>Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000</u>**

8.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC270-00 a oedd yn darparu cyngor gan Peter Law, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai, am ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn gyflym.**

## <u>9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog</u>

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC271-00 – adroddiad drafft y Pwyllgor Busnes ar symleiddio a rhannu Rheol Sefydlog 22. Nododd y Pwyllgor fod y cynigion, ar ôl iddo gytuno ar hynny yn flaenorol, wedi cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau er mwyn iddynt gyflwyno sylwadau erbyn diwedd mis Medi. Gan nad oedd unrhyw sylwadau sylweddol wedi dod i law, cytunwyd y dylid gwneud y cynigion yn y cyfarfod llawn ac y byddai'r Trefnydd yn trefnu amser priodol. **Gweithredu: Yr Uned Fusnes a Swyddfa'r Llywydd i gysylltu â'i gilydd.**

## <u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>

10.1 Ni chafwyd unrhyw ddyfarniadau gan y Llywydd.

**11.  Unrhyw fusnes arall**

11.1  Yr oedd yr Is-adran Gwasanaethau Aelodau a Gwasanaethau Canolog yn Swyddfa'r Llywydd wedi paratoi copi caled o'r holl ganllawiau sydd ar gael ar y Fewnrwyd ar hyn o bryd.  Cytunwyd y gallai'r Rheolwyr Busnes ofyn i Craig Stephenson am gael gweld y ffolder er mwyn i'w grwpiau ei ystyried. Oni bai bod unrhyw sylwadau yn cael eu cyflwyno, byddai ffolder yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r grwpiau plaid.  Yn ogystal, byddai copi yn cael ei osod yn y Llyfrgell ar gyfer yr Aelod Annibynnol.  Cyfrifoldeb pob swyddfa fyddai cynnal a chadw'r ffolder a'i ddiweddaru.  **Gweithredu:  Yr Is-adran Gwasanaethau Aelodau a Gwasanaethau Canolog i baratoi ffolderi.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**